



Cyfarfod Blynyddol 2022

Adroddiad y Trysorydd

(elusen rhif 1190243)

Mae'r adroddiad yma i'w ddarllen ochr yn ochr â'r Datganiad o Gyfrifon ar gyfer 2021-22.

Aelodaeth: 'Roedd gan y Clwb 287 aelod yn talu £20 yr un (£5740). Yn ogystal derbyniwyd £620 gan unigolion nad ydynt mwyach yn aelodau o'r Clwb – yn cynnwys 36 taliad o £15 a 10 taliad o lai na £15.

Roedd y taliad i'r Cyngor Mynydda Prydeinig yn £20.25 yr aelod tan Ebrill 2022 ac yn £21 wedi hynny. Bydd yn cynyddu i £22.25 ar 1 Ionawr 2023.

Teithiau: Bu dwy daith i'r Alban yn ystod y flwyddyn ond yr unig daliad a wnaed o goffrau'r Clwb oedd blaendal o £91 i un hostel.

Cinio blynyddol 2021: 'Roedd derbyniadau'r cinio yn yr Oakeley Arms, Maentwrog, yn £971 a'r gwariant yn £1240, gwahaniaeth o £269. Y rheswm dros y gwahaniaeth ydi (a) llogi ystafelloedd newid a (b) gwahodd gwesteion i'r cinio.

Cronfa Goffa Gareth Pierce: Llwyddwyd i ad-hawlio treth o £35.15 ar y rhoddion a gafwyd er cof am Gareth Pierce.

Gwariant arall: Yn ogystal â chostau rhedeg y Clwb (costau banc, gweinyddol a gwefan) sef cyfanswm o £470.87, gwnaed taliadau o £120 at gwrs cymorth cyntaf i aelodau, £150 i ymuno â'r Bartneriaeth Awyr Agored, £500 i ddau dîm achub gafodd eu galw i ddigwyddiadau ar deithiau'r Clwb a phrynwyd ail ddiffibriliwr am £1878.

Cronfeydd: Mae gan y Clwb £4893.42 yn y banc sy'n cynnwys Cronfa Goffa Gareth Pierce (£881.41) a chronfa gyffredinol o £4012.01. Mae'r gronfa gyffredinol £2745.14 yn is nag oedd ar yr un adeg llynedd. Mae angen i'r Clwb gadw arian wrth gefn yn y gronfa gyffredinol er mwyn sicrhau llif arian digonol (gan fod rhaid weithiau talu ymlaen llaw am lety ar deithiau preswyl cyn casglu arian gan y rhai sy'n mynychu) ac hefyd i warchod yn erbyn gwariant annisgwyl.

Tâl aelodaeth: Yng nghyfarfod blynyddol llynedd penderfynwyd cynyddu'r tâl aelodaeth i £25 y pen o Ionawr 2023 ymlaen. Er gwaetha'r hinsawdd economaidd bresennol bydd raid gweithredu ar y penderfyniad yma oherwydd y codiad yn y taliad i'r Cyngor Mynydda Prydeinig a'r gostyngiad yn y gronfa gyffredinol wrth gefn.

Dilys Phillips
24 Hydref 2022